NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Atezolizumab ar y cyd ar gyfer trin canser yr ysgyfaint metatastig di-gennog lle nad yw’r celloedd yn fach

5 Mehefin 2019

Mae Atezolizumab gyda bevacizumab, carboplatin a paclitaxel ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer canser metastatig yr ysgyfaint di-gennog lle nad yw’r celloedd yn fach (NSCLC) mewn oedolion os:

- nad ydynt wedi cael triniaeth ar gyfer eu NSCLC metatastig o'r blaen ac mae eu sgôr cyfran tiwmor PD-L1 yn is na 50% neu
- nad yw therapi wedi'i dargedu ar gyfer NSCLC derbynnydd ffactor twf epidermol (EGFR) positif na chinas lymffoma anaplastig (ALK) positif wedi gweithio.

Dylid rhoi'r gorau i driniaeth ar ôl 2 flynedd o driniaeth barhaus, neu'n gynt os bydd atezolizumab yn peidio â gweithio neu os bydd yr afiechyd yn datblygu gyda bevacizumab.

Os nad ydych yn gymwys i gael atezolizumab gyda bevacizumab, carboplatin a paclitaxel, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?


© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

**Gwybodaeth a chymorth**

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint, 03000 030 555
- Sefydliad Canser yr Ysgyfaint Roy Castle, 0333 323 7200
- Ymchwil Canser y DU, 0800 800 4040
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 000

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN 978-1-4731-3424-9



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.